# Y Bil Bwyd (Cymru)

# Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn

Rhagfyr 2022

**Y BIL BWYD (CYMRU)**

**DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH SYDD I'W GWNEUD O DAN Y BIL HWN**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi syniad o fwriad y polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru bŵer i'w gwneud, neu sy'n ofynnol iddynt ei gwneud o dan ddarpariaethau'r Bil Bwyd (Cymru) ('y Bil'), fel y'i cyflwynwyd ar 12 Rhagfyr 2022.

Fe'i paratowyd er mwyn cynorthwyo pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd wrth graffu ar y Bil, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

## Trosolwg o'r Bil

Mae'r Bil yn darparu fframwaith a fydd yn galluogi dull trawslywodraethol sy'n gydlynol, yn gyson ac yn strategol ar gyfer ymdrin â pholisi ac ymarfer ar bob agwedd ar y system fwyd.

Diben y Bil yw sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn golygu cryfhau diogelwch ein bwyd drwy gadwyn gyflenwi wydn, cefnogi datblygiad ein diwydiant bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru a gwella dewis defnyddwyr.

I grynhoi, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

**Nodau bwyd:** Sefydlodd y Bil 'nodau bwyd' ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodedig i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r nodau bwyd hynny. Mae'r Bil yn nodi'r nodau bwyd mewn dau gategori:

- Y nod bwyd sylfaenol: dyma'r nod cyffredinol o ddarparu bwyd fforddiadwy, iach, ac sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol i bobl Cymru.
- Nodau bwyd eilaidd: mae'r rhain yn ategu'r nod bwyd sylfaenol ac yn cwmpasu meysydd penodol gan gynnwys: Llesiant economaidd, iechyd a chymdeithasol, addysg, yr amgylchedd a gwastraff bwyd.

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod 'targedau' ar gyfer pob un o'r nodau bwyd eilaidd.

**Comisiwn Bwyd Cymru:** mae'r Bil yn sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru sydd â'r prif amcan o hyrwyddo a hwyluso:

- y nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd gan gyrff cyhoeddus; a
- chyflawni'r targedau bwyd.

**Strategaeth fwyd genedlaethol:** Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth fwyd genedlaethol sy'n nodi'r

strategaeth gyffredinol a'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd. Byddai'n ofynnol wedyn i 'gyrff cyhoeddus' penodedig roi sylw i'r strategaeth fwyd genedlaethol wrth arfer unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â'r nod bwyd sylfaenol, y nodau bwyd eilaidd, a'r targedau bwyd.

**Cynlluniau bwyd lleol:** Bydd y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) gyhoeddi cynllun bwyd lleol sy'n nodi'r polisïau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd.

**Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil**

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau yn yr adrannau a ganlyn:

- Adran 3(2)
- Adran 4(1)
- Adran 6(1)
- Adran 22(2)

Mae'r wybodaeth a geir yn y Datganiad hwn ar y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil yn cyfateb i'r wybodaeth a roddir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol (Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth).

Mae Adran 23 o'r Bil (Rheoliadau) yn nodi y bydd unrhyw bŵer yn y Ddeddf i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol y Senedd – fel y nodir yn Rheol Sefydlog 27.5).

Mae Adran 25 o'r Bil (Cychwyn) yn nodi y bydd y Ddeddf yn ei chyfanrwydd yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o dri mis ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

| Adran | Disgrifiad | Bwriad y polisi |
|---|---|---|
| **Nodau bwyd** | | |
| Adran 3(2)<br><br>Disgrifiadau o'r nodau bwyd eilaidd | Pwerau gwneud rheoliadau i <u>alluogi</u> Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r disgrifiad o nod bwyd eilaidd. | Mae'r tabl yn Adran 3(1) o'r Bil yn cynnwys rhestr o nodau bwyd eilaidd, a 'disgrifiad' ar gyfer pob un o'r nodau hynny (h.y. y camau gweithredu / canlyniadau y byddai disgwyl i gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt wrth hyrwyddo'r nod o dan Adran 1 o'r Bil).<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl y bydd angen diwygio'r disgrifiadau hynny dros amser i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Felly, bwriad y pwerau gwneud rheoliadau yw caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen i Weinidogion wneud diwygiadau priodol i'r disgrifiadau heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i'w gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, felly byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd ac yn destun dadl a phleidlais. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiwn Bwyd Cymru hefyd. |
| Adran 4(1) ac Adran 6(1)<br><br>Targedau ar gyfer y nodau bwyd eilaidd | Mae pwerau gwneud rheoliadau yn ei gwneud yn <u>ofynnol</u> i Weinidogion Cymru osod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd, a'i gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau hynny nodi dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir. | Mae Adran 4(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod un neu ragor o dargedau ar gyfer pob nod bwyd eilaidd. Mae Adran 6(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw reoliadau a wneir o dan Adran 4(1) bennu dyddiad adrodd ar gyfer unrhyw darged a osodir.<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl efallai y bydd angen i'r targedau hynny newid dros amser i ymateb i amgylchiadau sy'n newid, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir i'r disgrifiadau o nodau |

| | | |
|---|---|---|
| | | bwyd eilaidd a nodir uchod. Yn yr un modd, efallai y bydd angen newid unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i adlewyrchu targedau diwygiedig neu newydd. Felly, bwriad y pwerau gwneud rheoliadau yw caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen i Weinidogion osod targedau, a newid neu osod targedau newydd heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i'w gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, felly byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd ac yn destun dadl a phleidlais. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd geisio cyngor—<br><br>(a) gan Gomisiwn Bwyd Cymru, a<br>(b) gan bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol. |
| Adran 22(2) | Pwerau gwneud rheoliadau i <u>alluogi</u> Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o'r 'personau' hynny y bernir eu bod yn gorff cyhoeddus at ddibenion y Bil hwn. | Mae Adran 22(1) o'r Bil yn darparu'r rhestr o bersonau y bernir eu bod yn 'gorff cyhoeddus' at ddibenion y Ddeddf. Mae Adran 22(2) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiwygio'r rhestr honno o bersonau.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru eu hunain wedi'u rhestru fel personau y bernir eu bod yn 'gorff cyhoeddus', ac mae Adran 22(2) yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag tynnu eu hunain oddi ar y rhestr o bersonau.<br><br>Mae'n rhesymol disgwyl efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r rhestr o bersonau y bernir eu bod yn gorff cyhoeddus yn y dyfodol. Felly, bwriad y pwerau gwneud |

| | | |
|---|---|---|
| | | rheoliadau yw caniatáu'r hyblygrwydd sydd ei angen i Weinidogion ddiwygio'r rhestr o bersonau yn Adran 22(1) heb fod angen rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon i'w gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol y Senedd, felly byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd ac yn destun dadl a phleidlais. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â—<br><br>(a) Chomisiwn Bwyd Cymru;<br>(b) os yw'r rheoliadau yn ychwanegu person, y person hwnnw;<br>(c) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol. |